# Rhaglenni Cymorth i Weithwyr

Canllaw i ysgolion




Education Support

The charity for everyone working in education

teachershub.educationsupport.org.uk

# **Beth yw** Rhaglen Cymorth i Weithwyr (RCW)?

Mae rhaglen cymorth gweithwyr yn rhaglen buddion gweithwyr sy'n cynorthwyo staff ysgol gyda phroblemau personol a / neu broblemau cysylltiedig â gwaith a allai effeithio ar eu perfformiad swydd, iechyd, llesiant meddyliol ac emosiynol.

Gall RCW gefnogi staff sy'n wynebu ystod eang o faterion. Mae rhai enghreifftiau yn cynnwys:

## Yn eu bywydau gwaith:

- Perthynas â chydweithwyr
- Rheoli straen
- Rheoli pontio
- Cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith
- Rheoli gwrthdaro ac ymddygiad anodd
- Rheoli llwyth gwaith
- Ymdopi â newid

## Yn eu bywydau personol:

- Perthnasoedd teuluol
- Camesgor
- Cefnogaeth ynghylch camddefnyddio alcohol a sylweddau
- Profedigaeth
- Anffrwythlondeb
- Priodi
- Salwch difrifol
- Ysgariad



## Beth sy'n gwneud RCW yn llwyddiannus?

**Mae yna nifer o ffactorau sy'n gwneud RCW yn llwyddiannus, gan gynnwys:**

- Cyfrinachedd llym
- Bod yn agored i staff a'u teuluoedd agos
- Cydnabyddiaeth ac ymrwymiad gan arweinwyr ysgolion, staff ac undebau bod angen RCW
- Polisïau a gweithdrefnau a gefnogir gan uwch dimau arwain a staff
- Sefydlu gweithdrefnau atgyfeirio ffurfiol ac anffurfiol
- Hyrwyddo'r RCW ac anogaeth i ddefnyddio'r gwasanaeth
- Yr holl staff wedi'u haddysgu ynghylch sut i gael mynediad i'r RCW
- Gwerthusiad cyfnodol o'r RCW i sicrhau bod anghenion staff ac arweinwyr ysgol yn cael eu diwallu

**Yn ogystal, mae'n rhaid i'r RCW gael ei fonitro a'i werthuso i sicrhau ansawdd parhaus yr atgyfeiriad/cymorth ac i gywiro sefyllfaoedd trafferthus posibl. Mae asesiad priodol, atgyfeiriad a dilyniant o gynnydd yn bwysig i lwyddiant parhaus yr RCW.**

# **Pa bethau y dylid eu hystyried** wrth gontractio darparwr RCW?

Mae llogi gwasanaethau proffesiynol, waeth beth fo'r gwasanaeth, yn gofyn am rywfaint o ymchwilio. Cyfrifoldeb yr ysgol yw dod o hyd i ddarparwr cymwys sydd wedi'i gymhwyso gan addysg, gwybodaeth a phrofiad. **Nid y cwestiynau canlynol yw'r unig gwestiynau y gallech eu gofyn, ond yn hytrach maent yn fan cychwyn i'ch rhestr wirio.**

## 1 Beth yw profiad y darparwr?

- Am faint o flynyddoedd mae'r darparwr wedi bod yn gwasanaethu cleientiaid?
- A all y darparwr ddarparu rhestr o dystlythyrau?

## 2 Ble mae swyddfeydd y darparwr?

Ar y cyfan mae sefydliad lleol yn cael ei ffafrio oherwydd eu bod yn gyfarwydd â'r gymuned a'i hadnoddau.



## 3 Beth yw cwmpas gwasanaethau'r darparwr?

**Gall enghreifftiau gynnwys:**

- Rheoli straen.
- Atgyfeiriad gofal plant neu ofal yr henoed.
- Rhaglen lles.
- Cwnsela ar gyfer sefyllfaoedd argyfyngus (e.e., marwolaeth yn y gwaith).
- Cyngor yn benodol i reolwyr/goruchwylwyr wrth ymdrin â sefyllfaoedd anodd.

Yn union sut byddai'r sefydliad yn darparu gwasanaethau i'ch staff? Er enghraifft, a fyddai'r darparwr yn defnyddio rhif 800, rhwydwaith atgyfeirio, gwasanaeth ar y safle, ac ati.

Beth yw'r polisi ar ddychwelyd galwadau? Pa mor hir cyn i alwad yn ôl gael ei gosod (e.e., o fewn 24 awr, 48 awr)?

## 4 Sut mae'r darparwr yn penderfynu at bwy y caiff y staff eu hatgyfeirio? Sut a pha mor aml y caiff y rhestr o ffynonellau atgyfeirio ei diweddaru?

## 5 Beth yw argaeledd y darparwr?

- Sawl aelod o staff sydd ar gael yn ystod oriau ysgol nodweddiadol ac annodweddiadol?
- Pa wasanaethau sydd ar gael yn ystod oriau ysgol annodweddiadol?
- Beth sydd ar gael i bobl a allai fod eisiau galw gyda'r nos?



6 Faint o gwnselwyr a ddarperir fesul aelod o staff?

Beth yw cefndir y cwnselwyr, h.y. addysg, cymwysterau, blynyddoedd o brofiad, ac ati?

7 Ydy'r RCW yn cynnig addysg neu hyfforddiant i'ch ysgol? Os felly, pa fath o hyfforddiant a ddarperir?

8 A oes gan y darparwr wasanaeth dilynol neu adolygu defnydd? Os felly, sut mae'n cael ei wneud?

9 Pa fathau o wasanaethau dychwelyd i'r gwaith, ôl-ofal neu gefnogaeth a gynigir?

10 Pa fathau o gyhoeddusrwydd a hyrwyddo gwasanaethau RCW fyddai'n cael eu cynnig?

11 Beth yw strwythur y ffioedd? (E.e., ffi fflat? Yn seiliedig ar ystadegau defnydd cyfartalog a nifer y gweithwyr? fesul atgyfeiriad?)

12 Pa fathau o adroddiadau sy'n cael eu cynhyrchu i arweinwyr ysgol? (E.e., nifer yr atgyfeiriadau, pa fathau, ac ati)

## Mathau o wasanaethau RCW

Y pedwar prif fath o wasanaethau Rhaglen Cymorth i Weithwyr. Mae'r rhain ar gyfer:

- Unigolion
- Sefydliad
- Rheolwyr
- Gweinyddol

Y gwasanaethau RCW mwyaf cyffredin yw'r rhai a ddarperir i aelodau unigol o staff ac aelodau o'u teulu sydd hefyd wedi'u cynnwys. Fel arfer, mae'r gwasanaeth hwn yn cynnwys asesiad unigol ac atgyfeirio gyda chwnsela sy'n canolbwyntio ar broblemau.

Fodd bynnag, mae RCW cynhwysfawr yn rhoi cymorth i reolwyr ac ymgynghori ynghylch iechyd a pherfformiad staff, sefydliadol a'r rheolwyr hefyd. Mae'n bosibl nad oes angen yr holl wasanaethau hyn ar eich ysgol ac mewn gwirionedd, nid yw pob RCW yn cynnig y fath amrywiaeth o wasanaethau. Mae cymysgedd y gwasanaethau hyn hefyd yn dibynnu ar fodel darparu'r Rhaglen Cymorth i Weithwyr.

# Modelau darparu RCW

**Mae modelau rheoli gwahanol ar gyfer RCWs:**

Darperir y gwasanaethau hyn gan weithwyr proffesiynol yn yr ysgol, y tu allan i'r ysgol neu gyfuniad o'r ddau. Mae angen i'ch dewis fod yn seiliedig ar i ba raddau y bydd y rhaglen yn integreiddio â'ch ysgol a'ch staff.

Yn naturiol, mae gan Raglenni Mewnol bresenoldeb uchel ar y safle sy'n caniatáu cyswllt cerdded i mewn rhwng staff a chynghorwyr. Mae hyrwyddo'r RCW hefyd yn fwy amlwg trwy ddigwyddiadau amrywiol, presenoldeb ar fewnrwyd yr ysgol a sianeli cyfathrebu.

**Allanol** **Mewnol** **Cyfunol**

Darperir Rhaglenni Allanol gan ddarparwr ar wahân i'r ysgol ac fel arfer mae ganddynt bresenoldeb amrywiol ar y safle sydd fel arfer yn is na rhaglenni mewnol. Efallai y bydd mwy o bwyslais ar gwnsela dros y ffôn yn y rhaglen hon. Byddai hyrwyddo'r RCW yn gymharol is neu'n gymedrol gyda digwyddiadau lleol cyfyngedig o fewn y cwmni a phostio lluosog.

Mae Rhaglenni Cyfunol yn ymwneud yn bennaf â chwnselwyr cysylltiedig a gyflogir gan y darparwr RCW allanol sy'n cynnal eu gweithgareddau trwy'r staff RCW mewnol a gyflogir gan yr ysgol ei hun.

## Ansawdd gwasanaethau RCW

Pan fyddwch yn gwneud y penderfyniad i roi Rhaglen Cymorth i Weithwyr ar waith, mae'n fuddsoddiad sylweddol. Rydych chi eisiau gwneud yn siŵr bod y rhaglen yn dilyn yr hyn a ystyrir yn swyddogaethau craidd cyflawni RCW:

### Ffocws Perfformiad Gwaith

Prif nod cynghorydd RCW yw deall sut mae problem yn effeithio ar allu aelodau staff i weithredu yn y gwaith. Oherwydd hyn, pan fydd y gwasanaeth yn cael ei werthuso, canolbwyntiwch ar y newidiadau ym mherfformiad gwaith staff.

### Ymwybyddiaeth Rheolwr

Mae'n bwysig bod staff yr RCW yn gweithio'n agos gyda'r cwmni i hyfforddi arweinwyr ysgol, a rheolwyr llinell, ar sut i ymgysylltu â'r RCW. Mae'r agosrwydd at yr ysgol hefyd yn bwysig er mwyn i staff yr RCW ddeall pa faterion sydd o berthnasedd uwch neu is.

### Adnoddau Mewnol ac Allanol

Mae gallu'r RCW i gyfeirio at adnoddau o fewn yr ysgol a thu allan i helpu'r gweithiwr yn hanfodol i effeithiolrwydd y rhaglen. Mae staff eisiau gwybod ble i fynd a beth i'w wneud. Mae'r RCW yn gyfrifol am ddarparu'r wybodaeth hon mewn modd wedi'i theilwra yn seiliedig ar natur problem ac amgylchiadau'r aelod o staff. Sicrhewch fod gan eich RCW gronfa ddata gyfredol a chywir o adnoddau.

Wrth gwrs, dim ond tair o'r nifer o nodweddion pwysig yw'r rhain yr ydych am eu hystyried wrth werthuso'r RCW sydd gennych eisoes neu yr ydych yn ystyried ei roi ar waith. Mae agweddau eraill yn cynnwys opsiynau prisio, defnydd a phroffesiynoldeb.

Fel cyflogwr, rydych am i'ch buddsoddiad mewn RCW fod yn effeithiol ar y gyfradd uchaf. Y ffordd orau o wneud hynny yw gwerthuso'n gyson sut mae'r rhaglen yn gweithredu ac a yw'n cyd-fynd ag anghenion eich ysgol. Bydd eich staff yn gwerthfawrogi eich ymdrechion i ddarparu'r math gorau o gymorth.

**Yn Education Support rydym yn darparu gwasanaeth EAP pwrpasol i ysgolion. Mae gennym ddealltwriaeth ddofn o'r sector addysg a'r materion sy'n bwysig i athrawon. Gallwch ddarganfod mwy *yma*.**

Education Support

**The charity for everyone working in education**

**Education Support**
40A Drayton Park, London, N5 1EW

+44 (0) 20 7697 2750
educationsupport.org.uk

Registered Charity No. 1161436
© 2020 Education Support

March 2021